

---

## Dyfodol rhifau ffôn

Yr Ymgynghoriad Cyntaf

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Ebrill 2019

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 20 Mehefin 2019

# Y Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

3

# 1. Trosolwg

Ym mis Chwefror, cafodd ein datganiad polisi ar ddyfodol gwasanaethau teleffoni sefydlog ei gyhoeddi.<sup>1</sup> Roedd hwn yn nodi rhai o'r manteision posibl i ddefnyddwyr wrth i gwmnïau ffôn symud eu gwasanaethau llinell dir i dechnoleg 'protocol rhyngwyd ("IP") newydd. Roedd y ddogfen yn esbonio'r newidiadau sylweddol sy'n digwydd yn rhwydweithiau telegyfathrebiadau'r DU, rolau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau, a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr telegyfathrebiadau wrth iddynt wneud y newidiadau hyn.

Roedd y ddogfen yn nodi rôl Ofcom hefyd, sy'n cynnwys edrych ar ystyriaethau o ran polisi rheoleiddio mewn cysylltiad â dyfodol gwasanaethau ffôn sefydlog. Un o'r ystyriaethau hyn yw dyfodol rhifau ffôn. Yn y ddogfen hon rydym yn edrych ar sut bydd yn rhaid i rifau ddatblygu efallai, er mwyn iddynt barhau i hybu hyder mewn gwasanaethau ffôn.

## Yr hyn rydym yn ei gynnig – yn gryno

**Mae'r hyn sydd ei angen ac eisiau ar bobl a busnesau gan rifau ffôn llinell dir yn newid.** Er gwaethaf twf dynodwyr fel cyfeiriadau IP, bydd rhifau ffôn yn dal yn ffordd allweddol i ddefnyddwyr wybod pwy maent yn ei ffonio a phwy sy'n ei ffonio nhw. Yn y pen draw, byddwn yn symud i rwydweithiau IP yn unig. Bydd hynny'n arwain at gael gwared ar y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth hen rwydweithiau. Bydd hefyd yn gyfle am ragor o hyblygrwydd, ac fe allai weddnewid y ffordd mae rhifau ffôn yn cael eu trefnu a'u defnyddio. Yn y ddogfen hon, rydym yn edrych ar sut gallai hyn effeithio ar y ffordd mae rhifau llinell dir yn cael eu deialu, ac a ddylid cadw codau ardal a'u gwybodaeth gysylltiedig am leoliad.

**Mae'r ffordd mae pobl yn talu am alwadau wedi newid, sy'n gallu arwain at gostau galwadau annisgwyl i ddefnyddwyr.** Mae costau'r rhan fwyaf o alwadau wedi'u cynnwys mewn pecynnau, ac mae gwahanol ffyrdd o dalu am wasanaethau. Rydym yn edrych ar sut gall cwsmeriaid wynebu ffioedd annisgwyl o ganlyniad i dalu am alwadau unigol y tu allan i becynnau, a'r gwahaniaethau mewn arferion prisio galwadau (fel anghysondebau yng nghostau ffonio rhai rhifau personol a rhifau symudol 07). Gall hyn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth mewn rhifau yn gyffredinol ac, yn y pen draw, at lai o hyder mewn gwasanaethau ffôn. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn ystyried a oes rôl o hyd ar gyfer rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol, 084 a 087, fel ffordd o dalu am wasanaethau yn y dyfodol.

**Ac ystyried y datblygiadau hyn mewn gwasanaethau ffôn, rydym yn cynnig adolygu ein llyfr rheolau ar rifau ffôn yn y DU – sef y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol.**

*Crynodeb syml lefel uchel yw hwn yn unig. Mae'r cynigion rydym yn eu gwneud a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.*

## Cyd-destun

- 1.1 Mae galwadau ffôn yn bwysig i lawer o bobl a busnesau. Mae gan tua wyth o bob deg cartref yn y DU (81%) wasanaeth ffôn cartref ac mae 94% o oedolion yn defnyddio ffôn

---

<sup>1</sup> Dyfodol gwasanaethau teleffon sefydlog, datganiad Ofcom, 2019. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/telecoms-competition-regulation/future-fixed-telephone-services>.

symudol.<sup>2</sup> Mae bron i bob busnes bach a chanolig (96%) yn defnyddio llinellau tir ac mae'r rhan fwyaf (64%) yn defnyddio ffonau symudol.<sup>3</sup> Mae pobl yn y DU yn treulio dros 200 biliwn munud ar y ffôn bob blwyddyn, sy'n cynhyrchu refeniw galwadau o dros £3 biliwn i'r diwydiant.<sup>4</sup>

- 1.2 Er bod ffyrdd gwahanol o wneud galwadau wedi dod i'r amlwg – fel rhaglenni llais a negeseuon drwy fand eang – a bod gwasanaethau ffôn traddodiadol yn cael eu defnyddio llai, mae galwadau ffôn yn debygol o barhau i fod yn bwysig. Yn yr un modd â llwyfannau eraill, po fwyaf o bobl sydd wedi cysylltu â rhwydwaith ffôn, y mwyaf mae pob defnyddiwr yn elwa ar y dewis i gysylltu â phobl eraill. Yr hyn sy'n gwneud gwasanaethau ffôn yn unigryw yw ei bod yn llwyfan agored lle mae unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaeth ffôn yn gallu ffonio unrhyw ddefnyddiwr arall, waeth ar ba rwydwaith mae'r defnyddiwr hwnnw.
- 1.3 Mae newid sylweddol yn digwydd mewn rhwydweithiau ffôn yn y DU wrth i ddarparwyr telegyfathrebiadau fynd ati'n raddol i symud eu cwsmeriaid llinell dir o rwydwaith ffôn traddodiadol y wlad – y 'rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus' – i dechnoleg IP.
- 1.4 Ni ddylai'r rhan fwyaf o gwsmeriaid gael unrhyw drafferth wrth newid i wasanaeth IP. Byddant yn dal i gael yr hyn maent yn ei ystyried yn wasanaeth ffôn traddodiadol, ac yn cadw eu rhif ffôn presennol. I lawer, yr unig beth fydd yn newid yw bod eu gwasanaeth ffôn yn cael ei ddarparu drwy soced ar eu llwybrydd band eang yn hytrach na soced ffôn draddodiadol. I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid symudol, bydd y broses symud yn un ddi-dor wrth i rwydweithiau a ffonau symudol symud i 4G.
- 1.5 Mae'r newidiadau hyn yn creu cyfleoedd. Er enghraifft, cyfle i helpu i nodi ac atal galwadau niwsans, a chyfle i wella ansawdd galwadau ffôn. Felly, mae'n bwysig adolygu'r rheoliadau yn gyson wrth i'r newidiadau hyn ddigwydd.
- 1.6 Heddiw, rydym wedi cyhoeddi tri ymgynghoriad ar y defnydd o rifau ffôn yn y dyfodol ac ar y trefniadau rhwng rhwydweithiau. Dyma ein nodau:
  - **Hyrwyddo cystadleuaeth rhwng darparwyr** gwasanaethau ffôn, gan gydnabod y farchnad sy'n newid lle mae rhaglenni drwy fand eang, cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau negeseuon yn darparu dewisiadau ar wahân i alwadau ffôn traddodiadol.
  - **Hybu hyder mewn gwasanaethau a rhifau ffôn** drwy fynd i'r afael â galwadau niwsans a sgam, a mynd i'r afael ag arferion prisio sy'n arwain at ffioedd annisgwyl neu afresymol.
  - **Diogelu defnyddwyr rhag niwed** drwy wneud yn siŵr eu bod yn dal yn cael mynediad at wasanaethau pwysig.

---

<sup>2</sup> Traciwr Technoleg Ofcom H1 2018. Edrychwch ar ddogfen Ofcom, 2018. Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu, t.11. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/117256/CMR-2018-narrative-report.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/117256/CMR-2018-narrative-report.pdf).

<sup>3</sup> Cyfran a allai fod wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf i ni ei gomisiynu, sef *SME experience of communications services: research report*, gan Jigsaw, 2016.

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0030/96348/Ofcom-SME-consumer-experience-research-2016-Report.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0030/96348/Ofcom-SME-consumer-experience-research-2016-Report.pdf).

<sup>4</sup> Tablau data Ofcom ar gyfer refeniw galwadau a mynediad blynyddol y marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog a symudol yn *Telecommunications data revenues, volumes and market share update Q3 2018*.

<https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/telecoms-research/data-updates/telecommunications-market-data-update-q3-2018>.

## Y ddogfen hon

- 1.7 Ofcom sy'n gyfrifol am weinyddu rhifau ffôn y DU. Mae gennym ddyletswydd gyffredinol i wneud yn siŵr bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o rifau ac i annog effeithlonrwydd ac arloesedd at y diben hwnnw. Fel rhan o'n dyletswydd, rydym yn cyhoeddi Cynllun Rhifau sy'n nodi'r rhifau ffôn sydd ar gael i'w dyrannu ac unrhyw gyfyngiadau ar sut gellir eu mabwysiadu neu eu defnyddio.
- 1.8 Mae llawer o ddatblygiadau wedi bod mewn gwasanaethau ffôn. Rydym yn ystyried y datblygiadau hyn yn rhai a allai gael effaith ar y ffordd mae rhifau'n cael eu rheoli a'u defnyddio yn y dyfodol. Rydym wedi cychwyn adolygiad o rifau i wneud yn siŵr bod y Cynllun Rhifau yn hybu hyder mewn gwasanaethau ffôn.
- 1.9 Yn y ddogfen hon, rydym yn trafod y canlynol ac yn gofyn am farn rhanddeiliaid arnynt:
- **Rhifau daearyddol (llinell dir):** mae symud i dechnoleg IP yn golygu na fydd rhifau llinell dir 'ynghlwm' wrth ardal leol, gan roi rhagor o hyblygrwydd o ran sut mae rhifau'n cael eu defnyddio. Rydym yn ystyried sut gall hyn effeithio ar y ffordd mae rhifau llinell dir yn cael eu deialu ac a ddylem gadw codau ardal, a'r arwyddocâd o ran lleoliad maent yn ei ddarparu.
  - **Rhifau 084 a 087 nad ydynt yn rhai daearyddol:** Mae ein hymchwil ymysg defnyddwyr<sup>5</sup> wedi dod o hyd i ddiffyg ymwybyddiaeth a chanfyddiadau gwael o werth ac ymddiriedaeth mewn cysylltiad â rhifau 084 a 087. Gall pryderon ynglŷn â chostau galwadau, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch y costau hynny, fod yn ffactor sy'n cyfrannu at leihau hyder mewn teleffoni llais. Rydym yn edrych ar rôl rhifau 084 a 087 yn y dyfodol.
- 1.10 Rydym hefyd yn ystyried y niwed i ddefnyddwyr sy'n deillio o gostau galwadau annisgwyl a sut mae'r rhain yn gallu arwain at ddiffyg ymddiriedaeth mewn rhifau ac, yn y pen draw, at lai o hyder mewn teleffoni llais. Gan fod y rhan fwyaf o alwadau sy'n cael eu gwneud o linell dir a ffonau symudol wedi'u cynnwys mewn lwfansau galwadau erbyn hyn, mae defnyddwyr wedi dod i arfer â chael galwadau 'am ddim'. Pan fydd yr arferion sy'n gysylltiedig â phrisiau galwadau yn arwain at anghysondebau, gall hynny arwain at effaith niweidiol. Fel rhan o'n hadolygiad, rydym yn bwriadu nodi a mynd i'r afael ag anghysondebau mewn prisiau galwadau, er mwyn cyrraedd sefyllfa lle mae defnyddwyr yn gallu bod yn hyderus ynghylch cost galwad yn seiliedig ar y rhif ffôn a'r wybodaeth mae'n ei chyfleu.

## Y camau nesaf

- 1.11 Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 20 Mehefin 2019.
- 1.12 Yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, byddwn yn casglu data ychwanegol hefyd er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer llunio cynigion, gan gynnwys ceisio gwybodaeth gan ddarparwyr telegyfathrebiadau am eu defnydd o rifau ffôn.

---

<sup>5</sup> *The Future of Telephone Numbering: a qualitative research study*, Futuresight ar ran Ofcom, 2019. <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/telecoms-research/general/future-of-telephone-numbering>.

1.13 Rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion polisi yn nes ymlaen eleni.